**<u>YN YMCHWILIAD COVID-19 Y DU</u>**

**Gerbron y Wir Anrhydeddus Farwnes Hallett, D.B.E.**

---

## MODIWL 6 – DATGANIAD LLYWODRAETH CYMRU

---

1. Dyma'r cyflwyniad ysgrifenedig ar ran Llywodraeth Cymru ar gyfer gwrandawiad rhagarweiniol cyntaf Modiwl 6 yr Ymchwiliad ar 19 Mawrth 2024.

2. Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu ei dynodiad fel cyfranogwr craidd ar gyfer Modiwl 6 ac yn ailddatgan ei hymrwymiad llawn i'r Ymchwiliad. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu'r cydweithrediad llawnaf posibl yn y Modiwl hwn, fel ym mhob Modiwl, ac mae'n ddiolchgar i dîm yr Ymchwiliad am yr ymgysylltiad adeiladol sydd eisoes wedi digwydd mewn perthynas â Modiwl 6.

3. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y boen a'r dioddefaint penodol a brofwyd yn ystod y pandemig gan y rhai sydd ynghlwm â'r sector gofal oedolion, gan gynnwys: unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau'r sector, fel gwasanaethau cartrefi gofal, y mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldebau statudol a rheoleiddiol drostynt; eu hanwyliaid; a'r rhai sy'n gweithio yn y sector, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu cyflogi ynddo, gofalwyr di-dâl, a gwirfoddolwyr. Mae Llywodraeth Cymru yn ailddatgan ei diolch diffuant i'r rhai a weithiodd yn ddiflino i ddarparu gofal yn yr amgylchiadau mwyaf heriol, a'i chydymdeimlad dwys â'r rhai a gollodd anwyliaid neu a ddioddefodd fel arall yn ystod y pandemig.

4. Mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb datganoledig dros bolisi gofal cymdeithasol. Cyfrifoldeb statudol y 22 awdurdod lleol yng Nghymru yw

darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol, o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am reoleiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, ac mae'r swyddogaeth hon yn cael ei chyflawni drwy Arolygiaeth Gofal Cymru, sy'n cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru ond sy'n gweithredu'n annibynnol arni. Bydd y materion pwysig a fydd yn cael eu hystyried gan yr Ymchwiliad ym Modiwl 6 yn gofyn am ystyriaeth ofalus o'r penderfyniadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru, ac eraill, mewn ymateb i'r pandemig a'i effaith ar y sector gofal oedolion.

5. Bydd ymchwilio i'r materion sy'n berthnasol i Fodiwl 6 yn galw am ofyn cwestiynau pwysig. Mae Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi pa mor bwysig yw'r craffu hwn. Mae gan y rhai yr effeithir arnynt gan y materion sydd i'w hystyried ym Modiwl 6 yr hawl i gael atebion cyflawn a gonest, fel y gellir dysgu gwersi. Mae Llywodraeth Cymru yn barod i ddarparu pob cymorth y gall ei gynnig i'r Ymchwiliad yn ei ymchwiliadau.

Dyddiedig 11 Mawrth 2024